# Fleur

Ti dan bwysau,
yn ceisio dianc ar dy draed.
Beth bynnag sy'n dy boeni,
mae 'na rywun all dy helpu.

Ti'n dalentog
ac yn weithgar,
ac mae hynny i'w edmygu.
Ond paid gadael i ddisgwyliadau eraill
dy rwystro di rhag ffynnu.

Mae hi'n hawdd mynd i boeni,
ond beth os fydd popeth yn iawn?
Dim ond hunllef oedd hi,
ti'n saff - mae gen ti dy ddawn.

Os nad wyt ti'sho chwarae,
ceisia fod yn glir,
bydd dad yn saff o ddeall,
a phawb yn teimlo'n well cyn hir.


© Hawlfraint BBC